

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>5 TACHWEDD 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - SUSTAINABLE WEIGH, CAERNARFON</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH AMGYLCHEDD</b>

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Sustainable Weigh 13 Y Maes, Caernarfon, LL55 2NF gan yr ymgeisydd Daniel John Hunt. Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo ar gyfer siop fychan wedi leoli ar y Maes. Bwriedir masnachu fel siop groser sy'n arbenigo mewn cynhyrchion cynaliadwy a lleol, a ni fydd alcohol yn cael ei yfed ar yr eiddo.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais, a cytunodd yr ymgeisydd i amodau TCC cael eu gosod ar y drwydded ar gais Heddlu Gogledd Cymru. Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Tân, wedi crybwyll yn rhan tri o'r adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

<b>GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG</b>	<b>TRWYDDED ARFAETHEDIG</b>
<b>Oriau Agor / Opening Hours:</b>	Dydd Llun/Mon 08:30-18:30 Dydd Mawrth/Tue 08:30-18:30 Dydd Mercher/Wed 08:30-18:30 Dydd Iau/Thu 08:30-18:30 Dydd Gwener/Fri 08:30-18:30 Dydd Sadwrn/Sat 08:30-18:30 Dydd Sul/Sunday – Ar gau/Closed
<b>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol - Oddi ar yr Eiddo/Off Premises</b>	Dydd Llun/Mon 08:30-18:30 Dydd Mawrth/Tue 08:30-18:30 Dydd Mercher/Wed 08:30-18:30 Dydd Iau/Thu 08:30-18:30 Dydd Gwener/Fri 08:30-18:30 Dydd Sadwrn/Sat 08:30-18:30 Dydd Sul/Sunday – Ar gau/Closed

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff, i gynnwys polisi her 25 gwerthiant alcohol, cofnod gwrthod gwerthiant ac adnewyddu hyfforddiant gwerthu alcohol yn flynyddol.

- System TCC yn weithredol ar yr eiddo, ac aelodau staff wedi'i hyfforddi i'w defnyddio

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

### **3. YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau ac amodau
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Sylwadau

#### **3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu ac yn dilyn sgwrs gyda'r ymgeisydd cytunodd i dderbyn yr amodau isod ar y drwydded:

##### **Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn**

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.
2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.
3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.
4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawrlwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.
5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn manau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.
6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

- **Adran M (e) Amddiffyn Plant Rhag Niwed**

Bydd yr eiddo yn gweithredu cynllun Her 25

#### **3.3 Sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Derbyniwyd sylwadau gan y Gwasanaeth Tân yn nodi nad oes gwrthwynebiad ar y sail fod y perchennog yn sicrhau fod y golau argyfwng allanfa yn gweithio, bod y system larwm tân yn weithredol a wedi wasanaethu, a bod y diffoddyddion tân wedi wasanaethu ac yn gyfoes.

### **4 ARGYMHELLIAD**

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.